Grwp Diddordeb Lles Cymunedol Sain Tathan
Ymateb y Tîm Prosiect
Mawrth, 2009

Trosolwg
Mae'r ddogfen hon yn gofnod o'r cwestiynau a holwyd a sylwadau a wnaed yn ystod y sesiynau 'Holi ac Ateb yn y Grwp Diddordeb Lles Cymunedol a gynhaliwyd yng Nghlwb Golff RAF Sain Tathan dydd Mercher 4 Mawrth 2009.

Mae ymateb tîm y prosiect yn dilyn pob cwestiwn a/neu sylw.

Diogelwch a Mynediad

Beth sy'n digwydd i Giât y Dwyrain?
Does dim cynlluniau i ddefnyddio'r giat allanfa fel prif fynedfa, fodd bynnag bydd yn cael ei gadw mewn rhyw ffurff i'w ddefnyddio gan gerbydau'n mynd i ardal hyfforddi maes Castleton.

Ble bydd lleoliad swyddfa'r post/beth sy'n digwydd i'r swyddfa bost presennol?
Bydd y swyddfa ddidoli yn symud o'r safle i leoliad mwy addas. Yn wreiddiol roedd wedi ei leoli ar y safle oherwydd bod cymaint o bost yr ardal ar gyfer personél y safle. Yn amlwg, nid yw hyn yn wir bellach ac ni fydd yn newid hyd yn oed wedi ailddatblygiad MoD Sain Tathan. Er hyn, mae'n debyg y bydd gwasanaeth cownter yn cael ei gadw ar gyfer hyfforddeion.

Rwy'n pryderu am y swn yn Fferm Castleton a'r effaith y gallai hyn gael ar berchnogion cyfagos.
Mae Metrix a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio'n agos gyda'r Fro i sicrhau y bydd y gweithgareddau fydd yn digwydd yn yr Ardal Hyfforddi Maes yn cydymffurfio gyda rheoliadau cyfredol ynglyn â lefelau swn derbyniol.

Ni fydd y nifer o bobl sy'n defnyddio'r FTA ar unrhyw adeg yn fwy na 100 ac ni ddefnyddir cerbydau gyda thraciau, fel tanciau. Bydd hyn ynddo'i hun yn helpu i sicrhau nad yw lefel y swn yn cyrraedd lefelau annerbyniol.

Mae Metrix a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn awyddus i sicrhau perthynas tymor hir cadarnhaol gyda'u cymdogion o fewn y gymuned ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau cyn lleied o amhariad, fel swn, a phosib.

A fydd traffig adeiladu yn defnyddio Ffordd Eglwys Brewis?
Y nod yw cwblhau'r ffordd fynediad gogleddol cyn gynted â phosib ond bydd yna gyfnod o ryw flwyddyn pan fydd yn rhaid i draffig adeiladu ddefnyddio ffordd bresennol Eglwys Brewis.

Fodd bynnag, bydd hwn yn gyfnod o adeiladu llai dwys felly bydd llai o symud cerbydau. Wrth i'r rhaglen adeiladu ddatblygu a symud cerbydau gynyddu bydd y Ffordd Fynediad Gogleddol wedi ei chwblhau.

Beth fydd yn digwydd i'r llwybr cerdded ar draws yr Ardal Hyfforddi Maes?
Byddai'r llwybr cerdded yn aros a byddai'r cyhoedd yn parhau i gael mynediad i'r hawl tramwy hwn.

Mae iechyd a diogelwch yn hollbwysig wrth gwrs. Fodd bynnag, mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn nifer o safleoedd ble mae hyfforddiant yn digwydd ar raddfa llawer mwy nag unrhyw beth a fyddai i'w weld yn Sain Tathan, ac mae ganddo hanes gwych o ddiogelwch cyhoeddus ac yn yr achosion hyn mae gan y cyhoedd fynediad i sawl rhan o'r safle.

Yn ystod ymarferion hyfforddi, byddai diogelwch yn uchel iawn i sicrhau nad oedd y cyhoedd yn gwyro i mewn i ardaloedd gwaharddedig. Mae mesurau iechyd a diogelwch eraill yn cynnwys protocolau llym ar adalw'r holl ordnans unwaith i ymarferion hyfforddi orffen.

Pa weithgareddau fydd yn digwydd yn yr Ardal Hyfforddi Maes? Ydym ni'n mynd i gael Salisbury Plain ar y trothwy?
Bydd yr Ardal Hyfforddi Maes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant milwrol lefel/dwysedd isel. Gan hynny, fydd gweithgareddau ddim ar raddfa unrhyw beth yn debyg i'r hyn sy'n digwydd yn Salisbury Plain.

Bydd rheoliadau llym yn ymwneud a'r mathau a graddfeydd o weithgareddau fydd yn digwydd yn yr FTA. Er enghraifft, ni fydd y nifer o bobl sy'n defnyddio'r FTA ar unrhyw adeg yn fwy na 100 ac ni ddefnyddir cerbydau gyda thraciau, fel tanciau.

Pa mor aml fydd yr Ardal Hyfforddi Maes yn cael ei ddefnyddio ac ar ba adegau o'r dydd?
Bydd yr Ardal Hyfforddi Maes yn cael ei ddefnyddio'n bennaf yn ystod yr wythnos waith. Bydd ond yn cael ei ddefnyddio ar benwythnosau 12 gwaith yn ystod y flwyddyn.

Bydd gweithgareddau yn bennaf yn digwydd yn ystod y dydd ond fe fydd rhywfaint o weithgareddau yn ystod y nos. Gan fod gweithrediadau go iawn yn aml yn digwydd yn y nos, mae ymarfer yn yr amgylchiadau hyn yn rhan annatod o hyfforddiant milwrol.

Fodd bynnag, bydd hyfforddi nos yn cael ei reoli'n ofalus a bydd gan amlaf yn golygu'r mathau o ymarferion ble mae cyn lleied o swn a golau a phosib yn cael eu defnyddio ac felly ni fydd amhariad ar breswylwyr cyfagos.

A fydd bwledi byw yn cael eu defnyddio?
Mewn ymarferion hyfforddi, fel y rhai a fyddai'n digwydd yn yr Ardal Hyfforddi Maes, dim ond bwledi blanc fyddai'n cael eu defnyddio.

Fe fydd maes tanio bach ar ran Picketson o'r safle ble defnyddir bwledi byw. Mae ymarfer gyda bwledi byw yn rhan hanfodol o gynnal sgiliau milwrol sylfaenol. Bydd y maes tanio y tu fewn i ardal o ddiogelwch uchel ac mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dilyn protocolau llym wrth ddefnyddio a storio bwledi byw er mwyn sicrhau bod iechyd a diogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Sut fydd cael mynediad i'r Ardal Hyfforddi Maes?
Bydd mynediad i'r Ardal Hyfforddi Maes trwy ddefnyddio'r trac uniongyrchol o Ffordd y Bontfaen.

Beth fydd myfyrwyr yn ei wneud gyda'r nos? Bydd adnoddau lleol yn cael eu llethu pan na fyddant mewn gwersi.
Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ddyletswydd i ofalu am ei fyfyrwyr a'r gymuned amgylchynol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod gwaith traddodiadol pan mae hyfforddiant craidd yn digwydd. Mae amrywiaeth o adnoddau'n cael eu darparu ar y safle, yn cynnwys adnoddau chwaraeon a hamdden, tafarn, siop ac ardal gymunedol ble gall myfyrwyr ymlacio a chymdeithasu. Bydd yr adnoddau hyn yn darparu adloniant i fyfyrwyr ac yn helpu i'w cadw'n ddiddig gyda'r nos.

Rwy'n pryderu am fyfyrwyr yn achosi problemau gyda'r nos – beth sy'n cael ei wneud i atal hyn?
Mae gan Sain Tathan hanes hir gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae hyfforddiant wedi digwydd ar y safle hwn ers 1938. Dros y blynyddoedd mae perthynas gref a chadarnhaol iawn wedi ei sefydlu gyda'r gymuned. Yn y blynyddoedd diweddar, dim ond llond llaw o ddigwyddiadau a gafwyd oedd yn ymwneud a myfyrwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mân ddigwyddiadau oedd y rhain ac fe ddeliodd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn brydlon gyda nhw.

Bydd y myfyrwyr sy'n mynychu'r CTA yn bennaf ymgymryd â hyfforddiant cam dau. Dyma'r cam sy'n dilyn hyfforddiant milwrol sylfaenol ac mae'n galluogi myfyrwyr i ganolbwyntio ar feysydd mwy arbenigol. Bydd y myfyrwyr sy'n mynychu'r CTA yn weithwyr proffesiynol profiadol sy'n ymrwymedig i ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfa filwrol.

Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ddyletswydd i ofalu am ei fyfyrwyr a'r gymuned amgylchynol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod gwaith traddodiadol pan mae hyfforddiant craidd yn digwydd. Mae amrywiaeth o adnoddau'n cael eu darparu ar y safle, yn cynnwys adnoddau chwaraeon a hamdden, tafarn, siop ac ardal gymunedol ble gall myfyrwyr ymlacio a chymdeithasu. Bydd yr adnoddau hyn yn darparu adloniant i fyfyrwyr ac yn helpu i'w cadw'n ddiddig gyda'r nos.

Dylid cofio hefyd mai sefydliad y Weinyddiaeth Amddiffyn ydyw. Nid yn unig mae disgyblaeth yn rhan annatod o hyfforddiant myfyriwr, ond gall y Weinyddiaeth Amddiffyn arfer llawer mwy o reolaeth dros symudiadau ei fyfyrwyr na, dyweder, yr hyn fyddai'n bosib mewn coleg technegol.

Gydag ailddatblygiad Sain Tathan, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn hyderus y bydd ei berthynas hir a chadarnhaol gyda'r gymuned yn parhau. Yn wir, gyda'r cyfleoedd y bydd y datblygiad yn ei greu, rhagwelir y bydd y berthynas yn cryfhau ymhellach.

A fydd y Coleg Technegol yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi personél milwrol o dramor?
Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cymryd gofal i sicrhau bod polisi tramor y llywodraeth yn cael ei adlewyrchu wrth ddewis y myfyrwyr tramor mae'n ei hyfforddi. Mae gan y Lluoedd Arfog draddodiad hir o gyflenwi hyfforddiant milwrol i fyfyrwyr tramor ac mae'n debygol y bydd y trefniant hwn yn parhau yn y CTA.

Cyflogaeth

Pam mae'r ffigyrau cyflogaeth yn dod i lawr?
O ystyried maint a chymhlethdod y prosiect hwn, mae proffwydo'n union faint o swyddi fyddai'n cael eu creu a faint fyddai'n cael eu llenwi gan weithwyr presennol wastad wedi bod yn anodd. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod faint yn union o hyfforddwyr yn y CTA fydd yn trosglwyddo o safleoedd eraill hyd nes yn hwyrach yn y broses - yn y pen draw, mae'r penderfyniad hwn yn ddewis i'r unigolyn. Yn ogystal, mae rhai straeon yn y wasg wedi defnyddio ffigyrau gan ffynonellau answyddogol sydd wedi creu dryswch pellach.

Ar hyn o bryd, rydym yn amcangyfrif y bydd y cyfnod adeiladu (o 2010-2014) yn cynhyrchu hyd at 1,200 o gyfleoedd cyflogaeth yn ei anterth, 80 y cant ohonynt yn cael eu llenwi gan weithlu lleol/rhanbarthol. Bydd y Coleg Technegol Amddiffyn yn uniongyrchol yn cyflogi rhyw 2,400 o bobl mewn rolau milwrol a sifilaidd, y mwyafrif ohonynt yn cael eu hysbysebu ar y farchnad agored. Gallai'r Parc Busnes Awyrofod greu dros 2,000 o swyddi ychwanegol yn yr ardal. Nid yw'r ffigyrau hyn yn ystyried cyfleoedd ehangach fydd yn cael eu cynhyrchu ar draws y gadwyn gyflenwi

Ni fydd y gymuned yn elwa o'r swyddi sydd ar gael.
Rydym eisiau annog cyflogi pobl leol ble'n bosib a byddwn yn gwneud hyn mewn sawl ffordd. Er enghraifft, rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda Chanolfan Byd Gwaith i sicrhau bod pobl leol sy'n chwilio am waith yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Byddwn yn sefydlu 'siop swyddi' ar y safle i ddarparu gwybodaeth am y swyddi sydd ar gael yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect. Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio 'siop swyddi' symudol i deithio Bro Morgannwg a hyrwyddo'r cyfleoedd cyflogaeth i'r gymuned ehangach..

Beth fydd yn cael ei wneud i hyfforddi pobl leol fel bod ganddyn nhw'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi?
Mae pob parti sydd ynghlwm a'r PBA a'r CTA eisoes yn gweithio'n agos gydag Adran Plant, Addysg, Addysg Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth y Cynulliad i reoli perthnasau gyda sefydliadau academaidd blaenllaw De Cymru yn cynnwys UWIC, Prifysgol Caerdydd, Coleg y Barri a Phrifysgol Morgannwg.

Rwy'n bryderus ynglyn â chyfleoedd cyflogaeth i bobl iau a phobl anabl.
Ar gyfer y mwyafrif o gyfleoedd swyddi fydd ar gael e.e. rolau hyfforddi a chefnogi, ni fydd anabledd yn rhwystr. Y gofyn allweddol ar gyfer y rolau hyn fydd bod gan ymgeiswyr y sgiliau angenrheidiol. Bydd 'Cymal Cymdeithasol' yn

cael ei gynnwys yn y fframweithiau cyfreithiol angenrheidiol i sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys mewn gofynion swydd a recriwtio

Bydd y swyddi adeiladu'n cael eu rhoi i weithwyr mudol.
Nid yw prosiectau adeiladu tebyg yng Nghaerdydd (Dewi Sant 2 er enghraifft) wedi profi hyn ac rydym yn disgwyl y bydd rhyw 80 y cant o'r llafur adeiladu angenrheidiol yn cael ei recriwtio o ar draws de Cymru ac o fewn pellter cymudo'n ddyddiol.

Pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n defnyddio safleoedd maes glas ar gyfer y PBA a faint o safleoedd maes glas sydd wedi eu caffael?
Cafodd ôl troed y safle ei nodi yn y Briff Datblygiad yn 2006 ac nid yw'r ffin ar gyfer y cynllun wedi newid. Mae arbenigwyr ar y farchnad wedi cynghori bod datblygiad Parc Awyrofod llwyddiannus angen i adnoddau penodol fod yn gynaliadwy ac angen manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant. Mae'r safle wedi ei rannu er mwyn cynnig gweithrediadau awyr ymylol (h.y. ardal prawf cwmpawd a phrofi peiriannau) a gweithrediadau sydd ddim yn ymylol ac i gyfyngu ar draffig yn croesi'r rhedfa.

Mae'r ardal o dir ar Fferm Batslays sydd ar hyn o bryd y tu allan i MoD Sain Tathan ond fydd yn llunio rhan o PBA y de yn 12 hectar (30 acer).

Tai

Beth yw'r boced newydd hwn o dai i'r gorllewin? Nid oedd ar y cynllun gwreiddiol a ddangoswyd i'r cyhoedd yn yr arddangosfa ym mis Gorffennaf 2008?
Bydd y drydedd ardal o Lety Teuluoedd sy'n Gwasanaethu (SFA) i'r gorllewin yn cynnwys rhyw 169 o dai. Cafodd y safle ei ddewis yn ofalus yn unol â nifer o feini prawf sy'n cael eu defnyddio ar gyfer pob safle ar gyfer SFA, yn cynnwys:

- dyhead i ddiogelu datblygiadau tai sydd eisoes yn bodoli o amgylch y safle
- detholiad o safleoedd sy'n lleihau unrhyw bwysau ychwanegol ar y rhwydwaith traffig trwy sicrhau eu bod yn agos at y CTA ac felly lleihau amser teithio ac annog defnyddio trafnidiaeth ar wahân i'r car, fel beicio a cherdded
- mae'n gorwedd o fewn y ffin datblygiad ym Mriff Datblygu Sain Tathan sydd wedi ei gymeradwyo

Rwy'n poeni y bydd golygfeydd o Lanmaes yn cael eu cuddio gan dai SFA newydd.
Fe wnawn ail ystyried golwg cyrion y safle ac ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio gwrychoedd naturiol i greu ymyl gwyrdd.

Fydd y datblygiad newydd yn gwaethygu llifogydd yn yr ardal?
Er na allwn ddatrys holl broblemau llifogydd yr ardal, gallwn gadarnhau na fyddwn yn gwneud y sefyllfa'n waeth a byddwn yn parhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i asesu'r materion presennol a materion yn gysylltiedig gyda'r datblygiad cyfan ac nid y tai yn unig.

Er enghraifft, bydd y dwr ffo o ardaloedd yn safle'r datblygiad yn cael ei reoli ar y safle yn defnyddio egwyddorion Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau). Mae SDCau yn nodweddion fel pyllau a lagwnau sy'n cael eu mesur i ddal dwr ffo o ffyrdd, meysydd parcio a thoeau safle datblygiad yn ystod glaw ac yna'n ei ryddhau'n araf ar raddfa llawer is ar ôl glaw.

Pam nad ydych wedi prynu'r hen dai SFA a werthwyd?
Nid oedd hyn yn ddewis dichonadwy. Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio unedau SFA gwag sy'n bodoli eisoes a bydd y rhain yn darparu 70 o unedau SFA newydd.

Pam na allwch chi ddefnyddio fflatiau newydd gwag yng Nghaerdydd, Rhws a'r Barri yn lle adeiladu tai newydd?

Cafodd hyn ei ystyried ond rydym wedi ein harwain gan yr angen i fod mor gynaliadwy â phosib a lleihau teithio pellteroedd i ac o'r safle. Mae Caerdydd y tu allan i'r pellter dyddiol derbyniol i'r safle . Mae'r Barri ar y ffin allanol o ran pellter teithio a bydd darpariaeth mwy lleol yn helpu i leihau effeithiau ar y rhwydwaith trafnidiaeth.

Fydd cymdeithasau tai lleol yn ymwneud a darpariaeth tai newydd?
Mae'r tai sydd eu hangen ar gyfer y Coleg Technegol Amddiffyn ar gyfer personél MoD yn unig ac felly ni fydd darpariaeth ar eu cyfer ar y farchnad agored. Nid yw hynny'n golygu na fydd y tai'n cael ei gwerthu yn nes ymlaen trwy gydol bywyd y coleg. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn caffael y tai SFA, fydd yn cael eu hadeiladu i safon a dwysedd MoD, yn gystadleuol. Fe all Cymdeithasau Tai gynnig datganiad o ddiddordeb i ddarparu'r tai yn yr un ffordd ac adeiladwyr tai cyffredin, ond ni fyddant yn cael gwahoddiad i adeiladu tai 'fforddiadwy' safonol.

Fydd yna fynediad i'r ysgol gynradd o safle SFA y cwrs golff?
Byddwn yn ystyried sut y gallwn helpu i sicrhau bod llwybrau diogel i'r ysgol yn cael eu darparu o'r safle SFA newydd.

Bydd y Ffordd Fynediad Gogleddol newydd yn sbwylio'r tirlun lleol ac achosi llygredd golau. Pan na allwch chi ledaenu Ffordd Eglwys Brewis neu ddefnyddio'r fynedfa ar Giât y Gorllewin?
Bydd y brif fynedfa i'r Coleg Technegol Amddiffyn trwy gyfrwng ffordd fynediad newydd a chyffordd wedi ei hadeiladu o'r B4265. Bydd hyn yn sicrhau bod traffig i ac o'r safle yn cael mynediad uniongyrchol ac ar wahan i'r brif ffordd ac yn atal symudiadau traffig trwy bentref Sain Tathan.

Fel y mae ar hyn o bryd ni fyddai Ffordd Eglwys Brewis, ble mae'n dod oddi ar y B4265 a rhedeg tua'r gorllewin yn ymyl y Gwersyll Gorllewin, yn gallu ymdopi gyda'r cynnydd mewn traffig arfaethedig. Mae'r rhan hon o'r ffordd hefyd yn arbennig o wael a pheryglus i feicwyr a cherddwyr.

Mae astudiaethau manwl wedi casglu na all y rhan hon o'r ffordd bresennol gael ei gwella'n ddigonol i'w gwneud yn addas a diogel ar gyfer y nifer rhagweledig o gerbydau, yn bennaf oherwydd natur sensitif y dyffryn afon cyfagos. Felly, bydd Ffordd Fynediad Gogleddol newydd yn cael ei chreu. Bydd hyn yn symud traffig oddi wrth ffordd bresennol Eglwys Brewis a hefyd yn gwneud y ffordd sy'n bodoli eisoes yn fwy diogel ar gyfer beicwyr a cherddwyr.

Rydym wedi edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio mynedfa'r Gwersyll Gorllewin mewn partneriaeth gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ond mae materion yn ymwneud a diogelwch a diheintiad y safle'n gwneud hyn yn amhosib.

Ar hyn o bryd nid yw aliniad ffordd y ffordd fynediad gogleddol yn caniatáu i garafanau fynd i mewn i'r parc carafanau - mae unedau'n 12 troedfedd o led.
Diolch am godi hyn. Byddwn yn ei ystyried.

A ellir arwyddo rhai o'r lonydd cefn neu "rat runs" lleol yn lonydd mynediad yn unig?
Ar hyn o bryd nid yw hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod lonydd cefn yn achosi problem yn yr ardal leol.

Yn ailddatblygiad Sain Tathan, mae'r strategaeth trafnidiaeth yn seiliedig ar gynllun i osgoi rhoi mwy o bwysau ar lonydd cefn sy'n bodoli eisoes a gwneud y ffyrdd penodedig mor ddeniadol â phosib i yrwyr ceir.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfuniad o gynllunio a gosod ffyrdd a bydd yn cynnwys, er enghraifft, gwaith i wella Cyffordd Sain Tathan, y ffordd B4265 yn Gileston Hen Felin a chylchfan Weycock Cross a bydd yn helpu i sicrhau bod y rhwydwaith ffordd dosbarthol yn gallu ymdopi gyda chynnydd mewn traffig ar adegau prysur.